# PWYLLGOR SAFONAU

# DYDD LLUN, 27 CHWEFROR 2023

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd M. Dodd(Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol (Yn y Siambr):**
C. Davies, D. Evans a J. James

**Aelod Annibynnol (Yn rhithwir):**
F. Phillips

**Aelod Cymunedol (Yn rhithwir):**
P. Rogers

**Cynghorwyr Sir (Yn rhithwir):**
Y Cynghorwyr R. James, B.W. Jones, a G.B. Thomas

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith.
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
R. Morris, Swyddog Cymorth i'r Aelodau
S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell - 1.30 - 2.05 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**<u>TREFN Y MATERION</u>**

Gan fod eitemau Agenda 3, 4 a 6 yn ymwneud â'r un mater, cafodd y tri chais eu hystyried gyda'i gilydd ond eu cofnodi ar wahân.

## 3. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD MANSEL CHARLES

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Sir Mansel Charles am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Cymuned Llanegwad ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parc ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gâr. Byddai hyn yn rhan o gynllun cysylltu â'r Grid Tywi Wysg *Bute Energy.*

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Charles fuddiant personol a rhagfarnol mewn busnes o'r fath, gan y byddai'r cynigion roedd Bute Energy wedi eu cyflwyno yn effeithio arno ef a chymdeithion personol agos iddo.

Dywedwyd bod y Cynghorydd Charles yn ceisio gollyngiad yn rhinwedd Rheoliad 2(2)(d) – mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd o ran cynnal busnes yr awdurdod perthnasol a Rheoliad 2(2)(f) – mae cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn cael ei gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

Pe bai'r pwyllgor yn caniatáu cais y Cynghorydd Charles, byddai angen penderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2 2 (d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd M. Charles siarad, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio ar fusnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Cymuned Llanegwad (a chyfarfodydd cyhoeddus - lle bônt yn mynychu fel cynghorwyr sir fel rhan o fusnes y Cyngor) ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parciau ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin a byddai'r gollyngiad yn ddilys hyd at ddiwedd y tymor etholiadol presennol.**

## 4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD ANN DAVIES

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Sir Ann Davies am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Cymuned Llanegwad mewn perthynas â busnes y cyngor ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parc ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gâr. Byddai hyn yn rhan o gynllun cysylltu â'r Grid Tywi Wysg *Bute Energy.*

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Davies fuddiant personol a rhagfarnol mewn busnes o'r fath, gan y byddai'r cynigion roedd *Bute Energy* wedi eu cyflwyno yn effeithio arno ef a chymdeithion personol agos iddo.

Dywedwyd bod y Cynghorydd Davies yn ceisio gollyngiad yn rhinwedd Rheoliad 2(2)(d) – mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd o ran cynnal busnes yr awdurdod perthnasol a Rheoliad 2(2)(f) – mae cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn cael ei gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod

Pe bai'r pwyllgor yn caniatáu cais y Cynghorydd Davies, byddai angen penderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2 2 (d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd A. Davies siarad, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Cymuned Llanarthne (a chyfarfodydd cyhoeddus - lle bônt yn mynychu fel cynghorwyr sir fel rhan o fusnes y Cyngor) ar fusnes y cyngor ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parciau ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin a byddai'r gollyngiad yn ddilys hyd at ddiwedd y tymor etholiadol presennol.**

## 5. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD LLINOS DAVIES

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Sir Llinos Davies am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio mewn perthynas â busnes y cyngor, sef y cynigion cyllideb ar gyfer cyllido'r gwasanaeth cerddoriaeth deithiol mewn ysgolion.

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Davies fuddiant personol a rhagfarnol mewn busnes o'r fath, gan fod ei gŵr yn Bennaeth Cerdd mewn ysgol yn y sir.

Dywedwyd bod y Cynghorydd Davies yn ceisio gollyngiad yn rhinwedd Rheoliad 2(2)(d) – mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd o ran cynnal busnes yr awdurdod perthnasol.

Pe bai'r pwyllgor yn caniatáu cais y Cynghorydd Davies, byddai angen penderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2 2 (d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd L. Davies siarad, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio ar fusnes y cyngor, sef y cynigion cyllideb ar gyfer cyllido'r gwasanaeth cerddoriaeth deithiol mewn ysgolion a byddai'r gollyngiad yn ddilys hyd at ddiwedd y tymor etholiadol presennol**

## 6. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD HEFIN JONES

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Sir Hefin Jones am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Cymuned Llanarthne, a Chyngor Cymuned Llanddarog mewn perthynas â busnes y cyngor ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parc ynni eraill i

gysylltiad grid yn Sir Gâr. Byddai hyn yn rhan o gynllun cysylltu â'r Grid Tywi Wysg *Bute Energy.*

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Jones fuddiant personol a rhagfarnol mewn busnes o'r fath, gan y byddai'r cynigion roedd *Bute Energy* wedi eu cyflwyno yn effeithio arno ef a chymdeithion personol agos iddo.

Dywedwyd bod y Cynghorydd Jones yn ceisio gollyngiad yn rhinwedd Rheoliad 2(2)(d) – mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd o ran cynnal busnes yr awdurdod perthnasol a Rheoliad 2(2)(f) – mae cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn cael ei gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

Pe bai'r pwyllgor yn caniatáu cais y Cynghorydd Jones, byddai angen penderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2 2 (d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd H. Jones siarad, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Cymuned Llanarthne, a Chyngor Cymuned Llanddarog (a chyfarfodydd cyhoeddus - lle bônt yn mynychu fel cynghorwyr sir fel rhan o fusnes y Cyngor) ar fusnes y cyngor ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parciau ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin a byddai'r gollyngiad yn ddilys hyd at ddiwedd y tymor etholiadol presennol.**

## 7. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

**CHAIR** **DATE**